**Rhif: WG52783**

Llywodraeth Cymru

# Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

# Gorchymyn Senedd Cymru (Anghymhwyso) drafft 2025

Medi 2025

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd / This document is also available in English
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome correspondence and telephone calls in Welsh

OGL © Hawlfraint y Goron xxxx ISBN Digidol

## Trosolwg

Crynodeb o'r ymatebion a ddaeth i law i'r ymgynghoriad ar Orchymyn Senedd Cymru (Anghymhwyso) Drafft 2025 a gynhaliwyd rhwng 30 Mai 2025 a 25 Gorffennaf 2025.

## Camau i'w cymryd

Dogfen er gwybodaeth yn unig yw hon.

## Gwybodaeth bellach a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, Braille neu mewn ieithoedd eraill.

## Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:

Yr Is-adran Etholiadau
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10  3NQ

E-bost: Etholiadau.Elections@llyw.cymru

## Copïau ychwanegol

Cyhoeddir y crynodeb hwn o'r ymatebion a chopïau o'r holl ddogfennau ymgynghori ar ffurf electronig yn unig. Maent ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

Dolen at y ddogfen ymgynghori: Gorchymyn Senedd Cymru (Anghymhwyso) 2025 drafft | LLYW.CYMRU

## Cynnwys

Cynnwys ... 3
1. Cyflwyniad ... 4
2. Trosolwg o’r ymatebion ... 7
3. Crynodeb o’r Ymatebion i Gwestiynau’r Ymgynghoriad ... 8
4. Y camau nesaf ... 14
5. Rhestr o'r ymatebwyr ... 15

# 1. Cyflwyniad

1.1 Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar Orchymyn Senedd Cymru (Anghymhwyso) drafft 2025 (“y Gorchymyn Anghymhwyso”) ar 30 Mai 2025. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 25 Gorffennaf 2025.

1.2 Mae'r Gorchymyn Anghymhwyso yn dynodi swyddi ddynodi swyddi penodol sy'n anghymhwyso eu deiliaid rhag bod yn Aelod o'r Senedd, ond nid rhag bod yn ymgeisydd i fod yn Aelod o'r Senedd.

1.3 Cyn pob etholiad i'r Senedd, gwneir Gorchymyn newydd sy’n dirymu’r Gorchymyn blaenorol ac sy’n nodi rhestr newydd o swyddi sydd wedi'u hanghymhwyso.

1.4 Mae'r Gorchymyn Anghymhwyso yn cymhwyso'r un meini prawf ag o dan Orchymyn Senedd Cymru (Anghymhwyso) 2020 presennol[1]. Mabwysiadwyd y rhain o'r egwyddorion a nodwyd yn ymchwiliad Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol 2014 ar y pryd i drefniadau anghymhwyso.

1.5 Mae'r Gorchymyn Anghymhwyso yn gweithredu nifer o newidiadau i adlewyrchu deddfwriaeth ddiweddar, gan gynnwys dileu swyddi sydd bellach wedi'u diddymu, ychwanegu swyddi sydd wedi'u creu ers i'r Gorchymyn blaenorol gael ei wneud, a diweddariadau i enwau lle mae'r rhain wedi newid.

1.6 Mae'r swyddi canlynol wedi'u dileu o'r Gorchymyn Anghymhwyso, gan eu bod wedi'u diddymu gan ddeddfwriaeth ddiweddar:

- **Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru.**
  Y swyddi sydd wedi'u hanghymhwyso: Y Cadeirydd a’r aelodau a benodwyd gan Weinidogion Cymru o dan reoliad 34(1)(dd) o Reoliadau Cynghorau Iechyd Cymuned (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) 2010.

  Y rheswm dros y newid hwn yw bod Cynghorau Iechyd Cymuned wedi'u diddymu gan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020[2].

1.7 Mae'r Gorchymyn Anghymhwyso yn cynnwys y swyddi canlynol fel ychwanegiadau newydd, naill ai oherwydd ceisiadau gan arweinwyr polisi perthnasol Llywodraeth Cymru neu oherwydd eu cyflwyno gan ddeddfwriaeth ddiweddar:

[1] O.S. 2020/1255
[2] 2020 asc 1

- **Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth Cymru**

  Y swyddi sydd wedi'u hanghymhwyso: Cadeirydd, ac aelod amaethyddiaeth annibynnol, ac aelod addysg annibynnol, a benodir gan Weinidogion Cymru

- **Comisiynydd(Comisiynwyr) y Lluoedd Arfog**

  Y swyddi sydd wedi'u hanghymhwyso: Comisiynydd(comisiynwyr)

- **Y Pwyllgor Newid Hinsawdd**

  Y swyddi sydd wedi'u hanghymhwyso: Yr holl aelodau.

- **Cynghorau Cymuned a Thref**

  Y swyddi sydd wedi'u hanghymhwyso:
  (a) Swyddog cyflogedig sy'n gyfrifol, at ddibenion adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972[3], am weinyddu materion ariannol y cyngor cymuned; a
  (b) person sy'n dal swydd â thâl a bennir am y tro gan y cyngor cymuned yn y rhestr a gynhelir yn unol ag isadran (2) ac unrhyw gyfarwyddydau o dan adran 3 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972

- **Cyd-bwyllgorau Corfforedig (CBCau)**

  Y swyddi sydd wedi'u hanghymhwyso: Yr holl aelodau

- **Y Rheoleiddiwr Pêl-droed Annibynnol**

  Y swyddi sydd wedi'u hanghymhwyso: Yr holl aelodau

- **Comisiynydd Cyn-filwyr Cymru**

  Y swyddi sydd wedi'u hanghymhwyso: Y Comisiynydd

1.8 Mae'r Gorchymyn Anghymhwyso yn cynnwys y swyddi canlynol sydd wedi'u hailenwi ers Gorchymyn Anghymhwyso 2020 blaenorol, gyda'r enw newydd yn cael ei adlewyrchu yn y Gorchymyn Anghymhwyso:

- **Y Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys a Phwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru**
  *Newid enw i: -*

[3] 1972 p. 70

Cyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru

- **Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru**
  *Newid enw i: -*
  Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil

- **Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru**
  *Newid enw i: -*
  Tribiwnlys Addysg Cymru

- **Y Gwasanaeth Cynghori ar Bensiynau**
  *Newid enw i: -*
  Y Gwasanaeth Arian a Phensiynau

1.9 Fel rhan o'r broses ymgynghori, cynhaliwyd ymgynghoriad anffurfiol hefyd â swyddogion polisi yn Llywodraeth Cymru ac â rhanddeiliaid allweddol wrth ddatblygu'r Gorchymyn Anghymhwyso.

1.10 Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion i'r ymarfer ymgynghori.

## 2. Trosolwg o’r ymatebion

2.1 Daeth cyfanswm o 19 o ymatebion i'r ymgynghoriad i law drwy'r ffurflen ar-lein a thrwy e-bost oddi wrth aelodau o'r cyhoedd a rhanddeiliaid.

Tabl 1: Nifer yr ymatebwyr yn ôl math ar draws holl fformatau’r arolwg

| **Math o Ymatebydd** | **Nifer yr ymatebwyr** | **Canran** |
|---|---|---|
| Aelod o’r cyhoedd | 5 | 26.3% |
| Gweinyddwr etholiadol | 4 | 21.1% |
| Corff statudol / Corff cynrychioliadol / Corff neu Gymdeithas Broffesiynol Cymru | 9 | 47.4% |
| Y Trydydd Sector | 0 | 0% |
| Arall | 1 | 5.3% |


2.2 Mae rhestr o’r holl ymatebwyr wedi’i chynnwys yn Adran 5. Mae canrannau drwy gydol y ddogfen hon yn cael eu talgrynnu i un pwynt degol ac felly efallai na fyddant yn symio i 100%.

2.3 Ceir crynodeb o’r ymatebion i’r cwestiynau a ofynnwyd yn yr ymgynghoriad yn Adran 3.

2.4 Ni wnaeth rhai ymatebion ateb cwestiynau penodol ond yn hytrach fe wnaethant roi ymateb cyffredinol. Rhoddir cyfrif am yr ymatebion hyn o dan y cwestiwn perthnasol lle bo'n gymwys, neu yn y crynodeb o'r ymatebion i'r cwestiwn mwy cyffredinol (rhif 4).

# 3. Crynodeb o’r Ymatebion i Gwestiynau’r Ymgynghoriad

**Cwestiwn 1 – A ydych yn cytuno y dylai’r swyddi a nodir yn y ddogfen gael eu cynnwys yn y Gorchymyn Anghymhwyso nesaf?**





3.1 Roedd hanner yr ymatebwyr hynny a atebodd ‘ydw’ yn aelodau o'r cyhoedd, ac ni ddarparodd unrhyw ymatebydd a atebodd y cwestiwn unrhyw sylwadau pellach. Ni roddodd hanner y rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad ymateb i'r cwestiwn hwn.

3.2 Nododd yr ymatebydd a atebodd ‘nac ydw’ fod un o'r swyddi a restrir yn yr ymgynghoriad wedi'i diddymu ac felly y dylid ei dileu o'r Gorchymyn Anghymhwyso drafft. Mae hyn wedi'i nodi, ac mae'r swydd berthnasol wedi'i dileu.

3.3 Roedd sylwadau penodol a ddaeth i law yn ymwneud ag enwau wedi'u diweddaru swyddi a gynhwysir yn y Gorchymyn Anghymhwyso drafft. Nododd Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda y dylid dileu Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru o'r Gorchymyn, gan i fodolaeth y Pwyllgor hwn ddod i ben ar 31 Mawrth 2024 a bod Cyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru wedi ei ddisodli. Mae'r ymateb hwn wedi'i nodi, ac mae'r Gorchymyn drafft terfynol wedi'i ddiwygio i adlewyrchu'r diweddariad hwn.

**Cwestiwn 2 - A oes unrhyw swyddi eraill, nad ydynt wedi’u cynnwys yn y Gorchymyn Anghymhwyso drafft (ac nad ydynt wedi’u hanghymhwyso fel arall o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 neu ddeddfwriaeth arall) a ddylai gael eu hanghymhwyso rhag bod yn aelod o’r Senedd yn eich barn chi?**




3.4 Rhoddodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a atebodd ‘oes’ i'r cwestiwn hwn sylwadau pellach. Mynegodd pedwar ymatebydd ddewis o blaid ychwanegu'r elusen Sustrans at y Gorchymyn Anghymhwyso drafft, a/neu grwpiau lobïo neu grwpiau actifyddion.

3.5 Er bod pryderon ymatebwyr yn cael eu nodi, mae Aelodau'r Senedd wedi'u cwmpasu gan God Ymddygiad sy'n sefydlu safonau ymddygiad y mae rhaid iddynt gydymffurfio â hwy. Yn ogystal â'r Cod hwn, rhaid i'r Aelodau gydymffurfio â Rheolau Sefydlog y Senedd, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â datgan a chofrestru buddiannau ariannol ac eraill ac aelodaeth o gymdeithasau. Gellir cyfeirio toriadau honedig o'r Rheolau Sefydlog hyn at Gomisiynydd Safonau y Senedd i ymchwilio iddynt.

3.6 Felly, bernir bod unrhyw wrthdaro buddiannau posibl i Aelodau'r Senedd sy'n ymwneud ag aelodaeth o grwpiau actifyddion neu grwpiau lobïo, neu gyrff eraill megis Sustrans, yn cael eu rheoli'n effeithiol drwy fesurau eraill. O ganlyniad, ni fernir bod angen ychwanegu'r cyrff hyn at y Gorchymyn drafft.

3.7 Awgrymodd ymatebydd pellach y dylid diwygio disgrifiadau o gyrff sydd eisoes wedi'u cynnwys yn y Gorchymyn Anghymhwyso i'w hymestyn i aelodau eraill, er mwyn sicrhau amhleidioldeb gwleidyddol. Awgrymodd yr ymateb y dylid anghymhwyso aelodau gweithredol Corff Llais Dinasyddion, ac

y dylid diwygio'r swyddi anghymhwyso ar gyfer Byrddau Iechyd Lleol i gyfeirio at bob aelod, p'un a ydynt yn gyflogai i'r Bwrdd neu beidio. Byddai hyn yn newid i'r drafftio yng Ngorchymyn 2020.


3.8 Mae'r awgrym hwn wedi'i archwilio ymhellach, ac ni fernir bod angen ychwanegu aelodau pellach gan fod mesurau eraill ar waith i reoli'r risg hon. Mae gan lawer o gyrff fesurau ar waith i sicrhau amhleidioldeb gwleidyddol cyflogeion ac aelodau eraill, megis telerau penodi a fframweithiau safonau. Felly, ni fernir bod angen diwygio'r Gorchymyn Anghymhwyso ar y sail hon.

3.9 Roedd ymateb tebyg arall yn ymwneud â chynnwys aelodau cyfetholedig o Baneli'r Heddlu a Throseddu. Er hynny, oherwydd y telerau penodi a'r canllawiau sy'n gysylltiedig ag aelodaeth o'r paneli hyn, bernir bod y risg hon yn cael ei rheoli drwy ddulliau eraill. Felly, ni fernir bod angen ychwanegu aelodau cyfetholedig o Baneli'r Heddlu a Throseddu at y Gorchymyn Cymhwyso.

3.10 Cynghorodd ymatebydd arall nad oedd cysondeb anghymhwyso mewn perthynas ag aelodaeth o'r Bwrdd Rheoli Etholiadol (EMB), mewn perthynas ag aelodau nad ydynt yn gomisiynwyr. Archwiliwyd yr awgrym hwn ymhellach, ac ystyriwyd y goblygiadau. Mae'r Gorchymyn Anghymhwyso drafft wedi'i ddiwygio i sicrhau cysondeb ag Aelodaeth o'r Bwrdd Rheoli Etholiadol, ac i ddiogelu'r ddeddfwriaeth at y dyfodol.

**Cwestiwn 3 – Yn eich barn chi, a ellid llunio neu newid y Gorchymyn drafft er mwyn:**

- **sicrhau effeithiau cadarnhaol neu fwy cadarnhaol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; neu**
- **liniaru unrhyw effeithiau negyddol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?**





3.11 Ni roddodd dros 60% o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad ymateb i'r cwestiwn hwn.

3.12 Rhoddodd nifer o ymatebwyr, sef 35%, yr ateb 'na' a rhoesant sylwadau eu bod yn credu bod y Gorchymyn Anghymhwyso yn ddigonol yn ei ffurf bresennol.

3.13 Ni ddarparwyd unrhyw sylwadau nac adborth pellach mewn ymateb i'r cwestiwn hwn.

**Cwestiwn 4 – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw yn benodol, rhowch wybod inni.**




3.14 Ni roddodd dros 50% o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad ymateb i'r cwestiwn hwn, ac o'r ymatebwyr hynny a atebodd y cwestiwn, atebodd 30% 'nac oes'.

3.15 O'r ymatebwyr a atebodd 'oes', daeth sawl sylw i law yn ymwneud â'r Gorchymyn Anghymhwyso drafft. Er hynny, mae rhai sylwadau a ddaeth i law yn dod y tu allan i gylch gwaith yr ymgynghoriad hwn.

3.16 Cododd un ymatebydd bryderon am ddrafftio cyfreithiol y Gorchymyn Anghymhwyso drafft. Dywedodd yr ymatebydd fod cymysgedd o enwau 'cyfreithiol' ac 'a elwir yn' sy'n gysylltiedig â'r swyddi/cyrff sydd wedi'u hanghymhwyso. Er enghraifft, mae Cyngor Chwaraeon 'a elwir yn' Chwaraeon Cymru wedi'i restru yn y Gorchymyn Anghymhwyso, ond nid yw enwau 'a elwir yn' Swyddfa Archwilio Cymru ac Awdurdod Twristiaeth Prydain (ymhlith cyrff eraill) wedi'u rhestru.

3.17 Nodir mater cysondeb drafftio enwau 'cyfreithiol' ac 'a elwir yn'. Er hynny, mae nifer o resymau pam mae cymysgedd o enwau 'cyfreithiol' ac 'a elwir yn' yn y gorchymyn. Mae rhai yn deillio o sut y sefydlwyd y corff ei hun. Mae rhesymau eraill yn cynnwys os nad yw'r corff neu'r swydd yn defnyddio ei henw cyfreithiol, neu os oes llawer o gyrff eraill gydag enwau tebyg, ac felly mae'n ddefnyddiol cynnwys y ddau er eglurder. Mae diwygiad pellach i ychwanegu'r enw 'a elwir yn' at Swyddfa Archwilio Cymru, gan fod hwn yn cael ei ystyried yn ychwanegiad defnyddiol.

3.18 Mae enwau ‘cyfreithiol’ ac ‘a elwir yn’ pob corff neu swydd wedi'u hystyried yn ôl ei deilyngdod, ac ni fernir bod angen defnyddio enwau ‘a elwir yn’ ym mhob achos gan fod y drafftio presennol yn cael ei ystyried yn ddigonol.

3.19 Darparodd ymatebydd pellach i'r cwestiwn hwn sylwadau mewn perthynas ag anghymhwyso aelodau o Gyd-bwyllgorau Corfforedig (CBCau), gan fod Arweinwyr y Cyngor yn ffurfio aelodaeth CBCau (yn unol â gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021). Dywedodd yr ymatebydd ei bod yn ymddangos yn debygol y gallai fod gan rai Arweinwyr Cyngor uchelgais i sefyll am etholiad i'r Senedd, a gallai anghymhwyso ar y sail hon gael effaith ar redeg CBCau ac o bosibl Cynghorau yn y tymor byr-canolig.

3.20 Nodir pryder yr ymatebydd; er hynny, mae hyn yn risg sy'n dod y tu allan i gylch gwaith yr ymgynghoriad hwn. Er y bydd y Gorchymyn Anghymhwyso yn anghymhwyso aelodau o CBCau rhag dod yn Aelod o'r Senedd, dylid nodi hefyd na fydd yn anghymhwyso'r aelodau hynny rhag bod yn ymgeisydd i fod yn aelod o'r Senedd. Mae'r gwahaniaeth hwn yn golygu bod unigolion yn gallu sefyll yn yr etholiad sydd i ddod ac fe ddylai helpu i liniaru unrhyw risg wrth redeg CBCau a chynghorau. Ar ben hynny, mae CBCau yn cynnwys Arweinwyr Cyngor etholedig sydd eisoes wedi'u hanghymhwyso rhag dod yn Aelod o'r Senedd, ac yn ymgeisydd i fod yn Aelod o'r Senedd, o dan Adran 16(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

# 4. Y camau nesaf

4.1 Yn dilyn yr ymgynghoriad, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu gosod y Gorchymyn Anghymhwyso gerbron y Senedd ym mis Medi 2025. Bwriedir i'r Gorchymyn Anghymhwyso gael ei wneud ym mis Tachwedd 2025, yn dilyn cymeradwyaeth y Cyfrin Gyngor.

4.2 Mae Llywodraeth Cymru yn gwerthfawrogi'r holl safbwyntiau a fynegwyd mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn a fydd yn helpu i sicrhau bod y Gorchmynion Anghymhwyso terfynol yn addas i'r diben. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda'n rhanddeiliaid ynghylch rhoi'r Gorchymyn ar waith cyn etholiadau'r Senedd 2026.

4.3 Bydd unrhyw newidiadau i'r Gorchymyn Anghymhwyso yn cael eu nodi yn y Memorandwm Esboniadol diwygiedig a gaiff ei gyhoeddi ar yr un pryd â'r Gorchymyn.

## 5. Rhestr o'r ymatebwyr

Cafwyd ymatebion gan y sefydliadau a’r unigolion canlynol.

- 5 ymateb dienw
- Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol
- Cyngor Sir Caerfyrddin
- Cyngor Sir Ceredigion
- Swyddog Canlyniadau Etholaethol (CRO) Afan Ogwr Rhondda
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
- Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
- Cyngor Sir y Fflint
- Dyfarnwr Annibynnol yr Awdurdodau Lleol
- Y Comisiwn Penodiadau Barnwrol (JAC)
- Arweinydd Plaid Geidwadol Cymru
- Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
- Y Gronfa Diogelu Pensiynau
- Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig